Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Datganiad Ystadegol: 47/2026

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mehefin 2026

# Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2026
# Pennod 3: coetiroedd i bobl

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron WG54762

ISBN Digidol 978-1-83745-700-7

Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2026
Pennod 3: coetiroedd i bobl

Datganiad Ystadegol y Llywodraeth rhif 47/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dangosyddion-coetiroedd-i-gymru

Arweiniwyd y gwaith o gynhyrchu'r dangosyddion hyn gan Ymchwil Coedwigaeth, ar ran Llywodraeth Cymru.Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Coed a Phriddoedd
Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

PolisiCoedwigaeth.ForestryPolicy@gov.wales

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ........................................ 2

Rhestr o ffigurau ........................................ 3

Cyflwyniad ........................................ 4

Tueddiadau ........................................ 5

Deilliant 8: mwy o gymunedau'n ymwneud â'u coetiroedd a'u coed lleol, ac yn cael budd ohonynt. ........................................ 7

Dangosydd 8a: ymweliadau hamdden â choetiroedd ........................................ 7

Dangosydd 8b: canfyddiadau am fanteision ac anfanteision coetiroedd ........................................ 9

Data ychwanegol a chyd-destun ........................................ 14

Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth: ymweliadau â choetiroedd ........................................ 14

Deilliant 9: mwy o bobl yn manteisio ar gyfleoedd addysg a dysgu a ddarperir mewn coetiroedd a choed, a ganddynt. ........................................ 16

Dangosydd 9: mynychu gweithgareddau dysgu seiliedig ar goetiroedd ........................................ 16

Data ychwanegol a chyd-destun ........................................ 18

Safleoedd Coedwig Genedlaethol sy'n darparu cymuned, addysg ac ymchwil. 18

Deilliant 10: mwy o bobl yn byw bywydau iachach o ganlyniad i ddefnyddio, mwynhau, a byw gerllaw coetiroedd a choed ........................................ 19

Dangosydd 10a: manteision iechyd o goetiroedd ........................................ 19

Dangosydd 10b: hygyrchedd coetiroedd ........................................ 21

Deilliant 11: mwy o bobl yn elwa o fentrau cysylltiedig â choetiroedd a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â hynny ........................................ 23

# Rhestr o dablau

Tabl 1: disgrifiad o ddadansoddiad tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru ........ 5
Tabl 2: tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru ........ 6
Tabl 3: canran yr ymatebwyr a nododd fanteision coetiroedd i'r gymuned leol, Cymru, 2017 i 2025 ........ 10
Tabl 4: canran o ymatebwyr a nododd anfanteision coetiroedd i'r gymuned leol, Cymru, 2017 i 2025 ........ 11
Tabl 5: canran o ymatebwyr a ymwelodd â choetir dros y 12 mis diwethaf, Cymru, 2017 i 2025 ........ 15
Tabl 6: canlyniadau dadansoddiad thematig o geisiadau safle Coedwig Genedlaethol, 2025 ........ 18

## Rhestr o ffigurau

Ffigwr 1: nifer ymweliadau hamdden awyr-agored â choetiroedd, Cymru, 2014-2023 .......... 8

Ffigwr 2: canran pobl yn nodi o leiaf un fantais neu anfantais coetiroedd i'r gymuned leol, Cymru, 2017 i 2025 .......... 13

Ffigwr 3: canran ymatebwyr yn mynychu o leiaf un gweithgaredd dysgu mewn coetir, Cymru, 2017-2025 .......... 17

Ffigwr 4: hamdden (manteision iechyd), Cymru, 2014-2023 (£ miliwn, prisiau 2024) .......... 20

Ffigwr 5: canran ymatebwyr all gyrchu coetir heb ddefnyddio car neu gludiant arall, Cymru, 2017-2025 .......... 22

## Cyflwyniad

Mae pennod 3 o strategaeth Coetiroedd i Gymru yn gosod allan awydd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan boblogaeth Cymru fynediad cyfartal at goetiroedd o ansawdd dda, a'r manteision sy'n deillio o hyn. Datgenir 4 deilliant yn y bennod hon. Mae'r dangosyddion a'r data cyd-destunol ychwanegol a ddefnyddir i olrhain cynnydd tuag at y deilliannau strategol hyn wedi eu gosod allan isod.

**Deilliant 8: mwy o gymunedau yn manteisio ar gyfleoedd addysg a dysgu a ddarperir mewn coetiroedd a choed, a ganddynt.**

Dangosydd 8a: ymweliadau â choetiroedd.

Dangosydd 8b: canfyddiadau am fanteision ac anfanteision coetiroedd.

Data ychwanegol a chyd-destun: arolwg barn y cyhoedd am goedwigaeth: ymweliadau â choetiroedd.

**Deilliant 9: mwy o bobl yn cael budd o gyfleoedd addysg a dysgu a ddarperir gan goetiroedd a choed, ac ynddynt**

Dangosydd 9: mynychu gweithgareddau dysgu seiliedig ar goetiroedd

Data ychwanegol a chyd-destun: mentrau a gweithgareddau ar safleoedd y Goedwig Genedlaethol

**Deilliant 10: mwy o bobl yn byw bywydau iachach o ganlyniad i ddefnyddio, mwynhau, a byw gerllaw coetiroedd a choed.**

Dangosydd 10a: manteision iechyd i o goetiroedd

Dangosydd 10b: mynediad at goetiroedd

**Deilliant 11: mwy o bobl yn elwa o fentrau sy'n ymwneud â choetiroedd â chyflogaeth cysylltiedig â hynny.**

Heb gael ei olrhain yn uniongyrchol yma, gweler pennod 4 am ddata am gyflogaeth a sgiliau.

## Tueddiadau

Mae tueddiadau wedi eu gweithio allan ar gyfer y dangosyddion gan ddefnyddio'r meini prawf a osodir allan yn nhabl 1.

**Tabl 1: disgrifiad o ddadansoddiad tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru**

| Categori | Symbol | Trothwy |
|---|---|---|
| Gwella | ↑ | >3% newid positif ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Sefydlog (*h.y.,* fawr ddim neu ddim newid yn gyffredinol) | **=** | ≤3% newid ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Dirywio | ↓ | >3% newid negyddol ers dangosyddion CiG diwethaf |
| Heb ei asesu am nad oedd digon o ddata i gymharu | **D/G** | Ddim yn gymwys |

Lle mae data priodol ar gael, cymerir y pwynt data mwyaf diweddar â'r gwerth o'r adroddiad dangosyddion CiG diwethaf (neu ddata o'r cyfnod hwnnw o amser lle nad adroddwyd am hyn o'r blaen), wedi ei lyfnhau gan ddefnyddio cyfartaledd 3-blynedd. Er enghraifft, byddai pwynt data o 2025 yn cael ei gymharu â'r cyfartaledd 3-blynedd o amgylch 2018 (2017, 2018 a 2019). Diben hyn yw lleihau effaith debygol anghysonderau blynyddol unigol.

Mae dangosyddion pennod 3 a'r tueddiadau cysylltiedig ers yr adroddiad diwethaf am y dangosyddion i'w gweld yn nhabl 2.

### Tabl 2: tueddiadau ar gyfer dangosyddion Coetiroedd i Gymru

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 8a: Ymweliadau hamdden â choetiroedd | = |
| 8b:Canfyddiad o fantais a nodwyd | ↓ |
| 8b: Canfyddiad o anfantais a nodwyd | ↓ |
| 9: Mynychu gweithgareddau dysgu seiliedig ar goetir | ↑ |
| 10a: Gwerth manteision iechyd (£ miliwn) coetiroedd | ↑ |
| 10b: Cyrchu coetir heb gar | ↓ |

# Deilliant 8: mwy o gymunedau'n ymwneud â'u coetiroedd a'u coed lleol, ac yn cael budd ohonynt.

Asesir y deilliant hwn gan 2 ddangosydd: ymweliadau hamdden â choetiroedd and chanfyddiadau am fanteision ac anfanteision coetiroedd.


## Dangosydd 8a: ymweliadau hamdden â choetiroedd

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 8a: Ymweliadau hamdden â choetiroedd | = |

Mae cyfrifon cyfalaf naturiol coetiroedd, a gynhyrchir gan SYG, yn rhoi amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n ymweld â choetiroedd at ddibenion hamdden. Defnyddir y data hwn fel procsi am y defnydd cymunedol a phersonol o goetiroedd. Dylid nodi y bydd data o'r arolygon sy'n sail o wybodaeth i'r amcangyfrif hwn wedi newid dros amser. Yng Nghymru, disodlwyd data o Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru (AHAAC) am 2014 i 2015 gan gwestiynau seiliedig ar hamdden yn yr Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACG) am 2016 i 2017, a 2018 i 2019. Rhoddodd Arolwg pobl a natur Cymru (APaNC) ddata y gellid cymharu â hwy am 2021 i 2023. Dengys Ffigwr 1 amcangyfrif y nifer o ymweliadau hamdden a choetiroedd yng Nghymru rhwng 2014 a 2023. Ewch at fethodoleg y SYG am fwy o fanylion. Cyrhaeddodd amcangyfrif niferoedd yr ymweliadau hamdden â choetiroedd yng Nghymru uchafbwynt yn 2020, fwy na thebyg oherwydd pandemig COVID-19, ac er eu bod yn dal yn uwch na'r ffigwr cyfatebol yn 2019, cwympodd nifer yr ymweliadau hamdden dros y blynyddoedd dilynol.

Fel yr adroddwyd yn y cyfrifon Cyfalaf Naturiol Coetiroedd, ers rhifyn diwethaf y dangosyddion CiG, cafwyd ychydig o newid yn amcangyfrif y nifer o ymweliadau hamdden awyr agored, ar waethaf gostyngiad yn yr amcangyfrif o ymweliadau ers yr uchafbwynt yn 2020.

**Ffigwr 1: nifer ymweliadau hamdden awyr-agored  â choetiroedd, Cymru, 2014-2023**




Disgrifiad o ffigwr 1: Siart llinell yn dangos y duedd mewn llif ffisegol (nifer ymweliadau hamdden) a choetiroedd. Cynyddodd nifer yr ymweliadau rhwng 2014 a 2020, gan ostwng fymryn rhwng 2020 a 2022.

Ffynhonnell: Cyfrifon cyfalaf naturiol  coetiroedd, DU: 2026 – Swyddfa Ystadegau Genedlaethol

## Dangosydd 8b: canfyddiadau am fanteision ac anfanteision coetiroedd

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
| --- | --- |
| 8b: Canfyddiad am fantais a nodwyd | ↓ |
| 8b: Canfyddiad am anfantais a nodwyd | ↓ |

Mae Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth yn ffynhonnell allweddol o ddata i weld sut y mae coetiroedd yn cael effaith ar bobl. Mae Ymchwil Coedwigaeth (FR), a chyn hynny, y Comisiwn Coedwigaeth (CC), wedi cynnal arolygon bob dwy flynedd i farn am goedwigaeth yn y DU ers 1995. Yn yr arolygon cychwynnol, holwyd barn sampl cynrychioliadol o 2,000 o oedolion ledled Prydain Fawr. Yn 2001, gyda mwy o ddiddordeb yn y canlyniadau ar lefel gwledydd, gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i sampl cynrychioliadol o 1,000 oedolion yn yr Alban a Chymru fel ei gilydd. Hyd at 2019 cynhaliwyd yr arolygon wyneb-yn-wyneb, gydag arolygon yng Nghymru yn symud i fformat ar-lein o 2021 ymlaen. O'r herwydd, efallai na fydd y canlyniadau am 2021, 2023 a 2025 yn hollol gyson ag arolygon blaenorol. Mae manylion pellach am ffynonellau data a'r fethodoleg i'w cael yn Atodiad 1 o adroddiad Cymreig Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth.

Fel rhan o Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, gofynnir i gyfranogwyr nodi canfyddiadau am fanteision ac anfanteision coetiroedd i'r gymuned leol. Dengys Tabl 3 a Thabl 4 y gyfran o ymatebwyr a uniaethodd gyda phob un o'r manteision a'r anfanteision a restrwyd yn holiadur yr arolwg. Y fantais a nodwyd amlaf oedd bod coetiroedd yn rhoi lle i fywyd gwyllt, a'r anfantais yr adroddwyd amdano amlaf oedd bod coetiroedd yn cael eu defnyddio ar gyfer tipio anghyfreithlon.

Ffigwr 2 sydd yn dangos y newid yn y ganran o ymatebwyr sy'n nodi o leiaf un fantais neu anfantais rhwng 2017 a 2025. Ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG, mae nifer yr ymatebwyr a nododd o leiaf un fantais wedi gostwng fymryn tra

bod nifer yr ymatebwyr a nododd o leiaf un anfantais wedi cynyddu fymryn. Mae hyn yn groes i'r tueddiadau a ddymunir, ac y mae angen mwy o ymchwilio i ganfod pam y gellir arsylwi'r newid hwn. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o ymatebwyr (87%) wedi nodi o leiaf un fantais i goetiroedd, tra bod canran is o ymatebwyr (51%) wedi nodi o leiaf un anfantais yn y cylch arolygu diweddaraf. Awgryma hyn fod y canfyddiad cyffredinol am goetiroedd mewn cymunedau yn bositif.

**Tabl 3: canran yr ymatebwyr a nododd fanteision coetiroedd i'r gymuned leol, Cymru, 2017 i 2025**

| Mantais | 2017 | 2019 | 2021 | 2023 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| Maent yn darparu llefydd i fywyd gwyllt fyw | 77 | 83 | 85 | 65 | 56 |
| Maent yn darparu llefydd ar gyfer hamdden (e.e., cerdded, beicio, marchogaeth ceffylau, etc.) | 68 | 67 | 77 | 57 | 52 |
| Maent yn darparu llefydd i ymlacio a rhyddhau o straen | 57 | 63 | 78 | 57 | 50 |
| Maent yn gwella'r dirwedd | 63 | 71 | 78 | 58 | 46 |
| Maent yn helpu i symud carbon deuocsid o'r atmosffer gan helpu i leihau effaith newid hinsawdd | 54 | 59 | 74 | 48 | 45 |
| Maent yn hygyrch i bawb yn y gymuned | 42 | 48 | 64 | 49 | 40 |
| Maent yn ffynhonnell bwysig i ni i gyd | 44 | 47 | 58 | 42 | 36 |
| Maent yn helpu i leihau llygredd aer a sŵn | 43 | 52 | 66 | 43 | 35 |
| Maent yn helpu i amsugno dŵr mewn tywydd glawog | 39 | 48 | 65 | 39 | 35 |
| Gellir eu defnyddio gan ysgolion lleol a grwpiau addysgol eraill | 47 | 56 | 62 | 43 | 34 |
| Maent yn helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal | 49 | 52 | 48 | 35 | 30 |
| Maent yn rhoi cyfle i bobl yn y gymuned weithio gyda'i gilydd | 24 | 32 | 27 | 16 | 18 |
| Maent yn darparu coed a chynhyrchion coed eraill | 25 | 26 | 24 | 17 | 15 |

| Mantais | 2017 | 2019 | 2021 | 2023 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| Maent yn cefnogi'r economi leol | 25 | 29 | 24 | 17 | 14 |
| Maent yn darparu coed tân | 20 | 22 | 18 | 14 | 10 |
| Arall | 0 | [isel] | 1 | [isel] | [isel] |
| O leiaf un fantais arall wedi'i nodi | 96 | 97 | 92 | 90 | 87 |

Ffynhonnell: Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.


### Tabl 4: canran o ymatebwyr a nododd anfanteision coetiroedd i'r gymuned leol, Cymru, 2017 i 2025

| Anfantais | 2017 | 2019 | 2021 | 2023 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddir y coetiroedd gerllaw i ni i dipio yn anghyfreithlon | 22 | 26 | 23 | 16 | 16 |
| Allwn ni ddim rheoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol | 9 | 10 | 19 | 15 | 11 |
| Does dim modd cyrraedd y coetiroedd sy'n agos atom ni yn hawdd (e.e., dim llawer o lwybrau troed, tir preifat, etc.) | 3 | 2 | 13 | 9 | 10 |
| Mae coetiroedd yn agos i ni yn lle i weithgaredd troseddol ddigwydd | 15 | 15 | 11 | 10 | 8 |
| Nid yw'r coetiroedd yn agos i ni yn dda i fywyd gwyllt (e.e., dim digon o fywy7d gwyllt, dim digon o amrywiaeth o fywyd gwyllt, etc.) | 1 | 1 | 7 | 5 | 7 |
| Nid yw'r coetiroedd yn rhoi digon o swyddi lleol | 6 | 6 | 10 | 7 | 7 |
| Mae'r coetiroedd agos i ni yn mynd ar ffordd datblygiadau yn y gymuned (e.e., codi cartrefi newydd, etc.) | 1 | 2 | 2 | 3 | 7 |
| Mae'n anodd cael coed tân a phren o'n coetiroedd lleol | 2 | 3 | 5 | 6 | 6 |

| Anfantais | 2017 | 2019 | 2021 | 2023 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae lorïau cludo pren yn gwneud i mi deimlo'n anniogel wrth gerdded/gyrru ar y ffyrdd | 7 | 6 | 2 | 5 | 6 |
| Mae gwaith mewn coetiroedd ac ymwelwyr yn creu llygredd sŵn | 2 | 2 | 3 | 3 | 5 |
| Nid yw'r coetiroedd agos i ni yn llefydd braf i ymweld â hwy | 2 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Mae lorïau cludo pren/ymwelwyr mewn coetiroedd yn gwneud y ffyrdd yn brysur | 7 | 5 | 2 | 4 | 5 |
| Mae'r coetiroedd yn gwneud ein tirwedd yn waeth | 1 | 1 | 1 | 2 | 5 |
| Mae rheoli coetiroedd yn llygru'r aer/dŵr/pridd | 1 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Mae gwaith mewn coetiroedd yn creu carbon deuocsid sy'n cyfrannu at waethygu newid hinsawdd | 2 | 2 | 3 | 2 | 4 |
| Arall | 0 | 2 | 3 | 2 | 1 |
| O leiaf un anfantais arall wedi'i nodi | 43 | 47 | 52 | 50 | 51 |

Ffynhonnell: Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

**Ffigwr 2: canran pobl yn nodi o leiaf un fantais neu anfantais coetiroedd i'r gymuned leol, Cymru, 2017 i 2025**




Disgrifiad o ffigwr 2: Siart llinell gyda 2 linell duedd. Gostwng wnaeth nodi o leiaf un fantais. Cynyddu wnaeth nodi o leiaf un anfantais. Erys y ganran sy'n nodi mantais yn uwch na'r ganran sy'n nodi anfantais.

Ffynhonnell: Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

## Data ychwanegol a chyd-destun

### Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth: ymweliadau â choetiroedd

Mae Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth yn ffynhonnell allweddol o ddata i weld sut y mae coetiroedd yn cael effaith ar bobl. Mae Ymchwil Coedwigaeth (FR), a chyn hynny, y Comisiwn Coedwigaeth (CC), wedi cynnal arolygon bob dwy flynedd i farn am goedwigaeth yn y DU ers 1995. Yn yr arolygon cychwynnol, holwyd barn sampl cynrychioliadol o 2,000 o oedolion ledled Prydain Fawr. Yn 2001, gyda mwy o ddiddordeb yn y canlyniadau ar lefel gwledydd, gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i sampl cynrychioliadol o 1,000 oedolion yn yr Alban a Chymru fel ei gilydd. Hyd at 2019 cynhaliwyd yr arolygon wyneb-yn-wyneb, gydag arolygon yng Nghymru yn symud i fformat ar-lein o 2021 ymlaen. O’r herwydd, efallai na fydd y canlyniadau am 2021, 2023 a 2025 yn hollol gyson ag arolygon blaenorol. Mae manylion pellach am ffynonellau data a’r fethodoleg i’w cael yn Atodiad 1 o adroddiad Cymreig Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth. O ystyried y newid mewn methodoleg a ddefnyddiwyd ers 2017, cynhwyswyd y data hwn er mwyn triongli ac ychwanegu cyd-destun i ddata SYG am ymweliadau hamdden â choetiroedd yr adroddwyd amdanynt yn y ‘Dangosydd ymweliadau â choetiroedd’ uchod.

Ddengys Tabl 5 nifer yr ymatebwyr i Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth yng Nghymru a adroddodd am ymweld â choetir dros y 12 mis diwethaf. Arhosodd canran yr ymatebwyr a grybwyllodd hyn yn gyson dros amser.

**Tabl 5: canran o ymatebwyr a ymwelodd â choetir dros y 12 mis diwethaf, Cymru, 2017 i 2025**

| Blwyddyn | Canran ymatebwyr a adroddodd am ymweld â choetir dros y 12 mis diwethaf (%) |
|---:|---:|
| 2017 | 72 |
| 2019 | 77 |
| 2021 | 63 |
| 2023 | 72 |
| 2025 | 68 |

Ffynhonnell: Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

## Deilliant 9: mwy o bobl yn manteisio ar gyfleoedd addysg a dysgu a ddarperir mewn coetiroedd a choed, a ganddynt.


Asesir y deilliant hwn gan un dangosydd: mynychu gweithgareddau dysgu seiliedig ar goetiroedd. Nid yw hyn yn dal holl ystod y cyfleoedd dysgu ac addysg  a gyflwynir gan goetiroedd a choed. Cafwyd peth data ychwanegol a chyd-destun o ddadansoddi ceisiadau gan safleoedd y Goedwig Genedlaethol.

### Dangosydd 9: mynychu gweithgareddau dysgu seiliedig ar goetiroedd

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 9: Mynychu digwyddiadau dysgu mewn coetiroedd | ↑ |

Fel rhan o Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, gofynnir i ymatebwyr adrodd am fynychu gweithgareddau dysgu seiliedig ar goetiroedd dros y 12 mis diwethaf. Y gweithgareddau a gynhwysir yw taith dywys neu sgwrs, ysgol goedwig, taith ysgol, digwyddiad a drefnwyd i blannu coed, a chwrs neu ddigwyddiad hyfforddi a drefnwyd. Dengys Ffigwr 3 y ganran o ymatebwyr a nododd o leiaf un digwyddiad dysgu a fynychwyd yn ystod y 12 mis a aeth heibio. Ers rhifyn diwethaf dangosyddion CiG, bu cynnydd yn y ganran o ymatebwyr a adroddodd am ymwneud a gweithgareddau dysgu cysylltiedig â choetiroedd.

**Ffigwr 3: canran ymatebwyr yn mynychu o leiaf un gweithgaredd dysgu mewn coetir, Cymru, 2017-2025**




Disgrifiad o ffigwr 3: Siart llinell yn dangos cynnydd bychan yng nghanran yr ymatebwyr i Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth a fynychodd o leiaf un gweithgaredd dysgu cysylltiedig â choetiroedd rhwng 2017 a 2025.

Ffynhonnell: Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, Ymchwil Coedwigaeth, 2025. .

## Data ychwanegol a chyd-destun

**Safleoedd Coedwig Genedlaethol sy'n darparu cymuned, addysg ac ymchwil.**

Fel y crybwyllwyd eisoes, dyma ddeilliannau'r Goedwig Genedlaethol i Gymru:

- Coetiroedd gwydn o ansawdd dda, wedi eu dylunio a'u rheoli'n dda.
- Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl.
- Ymwneud cymunedol a choetiroedd.
- Coetiroedd cysylltiedig.
- Coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas.
- Coetiroedd sy'n arddangos dysgu, ymchwil ac arloesedd.

Nododd dadansoddiad thematig o fentrau a wnaed gan safleoedd y Goedwig Genedlaethol themâu allweddol yr ymdriniodd y safleoedd â hwy, ac sy'n gysylltiedig â'r 6 deilliant hwn. Dengys Tabl 6 ganran y safleoedd yn y Goedwig Genedlaethol (oedd yn gywir ar Fedi 2025) oedd yn rhestru gwahanol fentrau cymunedol, addysg ac ymchwil yn eu ceisiadau cychwynnol am fod yn Goedwig Genedlaethol. Fel y gellir gweld, rhestrwyd 66% o safleoedd y Goedwig Genedlaethol fel rhai oedd yn cynnal gweithgareddau ymwneud â'r gymuned a lles, gyda 50% yn cynnal gweithgareddau addysg a dysgu awyr agored, a 23% yn cynnal ymchwil a chydweithredu arloesol.

**Tabl 6: canlyniadau dadansoddiad thematig o geisiadau safle Coedwig Genedlaethol, 2025**

| Themâu | Canran cyfanswm safleoedd Coedwig Genedlaethol |
|---|---:|
| Rheoli ac Adfer Coetiroedd | 37% |
| Cyfleoedd Addysg a Dysgu Awyr Agored | 50% |
| Monitro Bioamrywiaeth a Chadwraeth | 40% |
| Ymwneud Cymunedol a Lles | 66% |
| Ymchwil a Chydweithredu Arloesol | 23% |
| Rheoli Amgylcheddol | 20% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2025.

## Deilliant 10: mwy o bobl yn byw bywydau iachach o ganlyniad i ddefnyddio, mwynhau, a byw gerllaw coetiroedd a choed

Asesir y deilliant hwn gan 2 ddangosydd: manteision iechyd o goetiroedd a hygyrchedd coetiroedd.


### Dangosydd 10a: manteision iechyd o goetiroedd

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 10a: Gwerth manteision iechyd (£ miliwn) coetiroedd | ↑ |

Dengys astudiaethau fod treulio o leiaf 120 munud yr wythnos mewn natur yn gysylltiedig â gwelliannau mewn iechyd a lles. Mae Cyfrifon Cyfalaf Naturiol Coetiroedd y SYG yn rhoi amcangyfrifon o'r bobl sy'n cael manteision iechyd o hamddena'n rheolaidd mewn coetiroedd, ac o werth ariannol hyn. Mae amcangyfrifon ariannol yn deillio o ddefnyddio agwedd arbed costau. Mae methodoleg cyfrifon cyfalaf naturiol y DU  yn rhoi mwy o fanylion am sut y mae amcangyfrifon o ymweliadau â choetiroedd, a'r prisiadau ariannol cysylltiedig, yn cael eu cynhyrchu. Dengys Ffigwr 4 amcangyfrif o werth ariannol y manteision iechyd sy'n deillio o hamddena mewn coetiroedd. Oherwydd y defnyddir data o ffynonellau gwahanol am wahanol gyfnodau o amser, ni ddylid cymharu'r data yn rhy agos dros amser. Fodd bynnag, mae'n debyg y gellir priodoli'r pegynnu sydyn yng ngwerth economaidd manteision iechyd yn 2020 i'r ffaith fod mwy o amser yn cael ei dreulio mewn natur yn ystod pandemig COVID-19.

Ers y rhifyn diwethaf o ddangosyddion CiG, bu cynnydd yng ngwerth ariannol y manteision iechyd a geir o goetiroedd.

**Ffigwr 4: hamdden (manteision iechyd), Cymru, 2014-2023 (£ miliwn, prisiau 2024)**




Disgrifiad o ffigwr 4: Siart llinell yn dangos y duedd, mewn miliynau o bunnoedd, mewn manteision iechyd a hamdden o goetiroedd. Cynyddodd y gwerth rhwng 2014 a 2020, gostwng wedyn rhwng 2020 a 2021, cyn cynyddu eto rhwng 2021 a 2023.


Ffynhonnell: Cyfrifon cyfalaf naturiol coetiroedd, DU: 2026 – Swyddfa Ystadegau Genedlaethol

## Dangosydd 10b: hygyrchedd coetiroedd

| Dangosydd | Tuedd ers adroddiad diwethaf dangosyddion CiG |
|---|---|
| 10b: Cyrchu coetir heb gar | ↓ |

Fel dangosydd o hygyrchedd coetiroedd, defnyddir y gyfran o ymatebwyr a all gyrchu coetir heb orfod defnyddio car neu fath arall o gludiant fel procsi am rwyddineb mynediad ac agosrwydd at goetir. Dengys Ffigwr 5 y ganran o ymatebwyr i Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth a ddywedodd eu bod yn gallu cyrchu coetir heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant. Errs rhifyn diwethaf dangosyddion CiG, bu gostyngiad yn y dangosydd hwn. Nid yw’r dangosydd hwn yn ymdrin â pha mor hygyrch yw coetiroedd yng Nghymru i amrywiaeth o ddefnyddwyr, gyda gwahanol anghenion.

**Ffigwr 5: canran ymatebwyr all gyrchu coetir heb ddefnyddio car neu gludiant arall, Cymru, 2017-2025**




Disgrifiad o ffigwr 5: Siart llinell yn dangos gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr i Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth sy’n gallu cyrchu coetir heb ddefnyddio car, rhwng 2017 a 2025.

Ffynhonnell: Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth, Ymchwil Coedwigaeth, 2025.

## Deilliant 11: mwy o bobl yn elwa o fentrau cysylltiedig â choetiroedd a chyflogaeth sy’n gysylltiedig â hynny

Nid yw’r deilliant hwn wedi ei olrhain yn uniongyrchol gan ddangosydd; serch hynny, ymdrinnir ym mhennod 4 gyda chyflogaeth uniongyrchol yn y sector coedwigoedd, dan ddeilliant 15. Mae bwlch tystiolaeth ynghylch faint o fentrau coetiroedd sydd yng Nghymru.